# Iddew a Mwslim

Iddew uniongred ydw i, a dwi'n mynd i'r synagog yn Abertawe, am mai synagog uniongred yw hi. Beth yw ystyr y gair hwn? Wel, mae yna wahanol grwpiau Iddewig, ac mae dau ohonyn nhw yn bwysig iawn sef yr 'uniongred' a'r 'diwygiedig'. Nid yw synagogau y ddau grŵp yn union run fath, ac nid yw eu addoli yr un fath chwaith, ond maen nhw, a phob grŵp Iddewig arall, mor bwysig â'i gilydd.



Un o'r pethau sy'n wahanol rhwng Iddewiaeth uniongred a diwygiedig yw bod y ddau grŵp yn rhoi lle gwahanol i fenywod yn eu synagogau. Mae'r uniongred yn credu mewn cadw'r dynion a'r meynwod yn eistedd ar wahân. Maen nhw'n credu mai yn y cartref mae rôl bwysig y fenyw, a dim ond dynion all fod yn rabbi a darllen y Torah, sef y sgrôl sanctaidd. Mae'r synagogau diwygiedig, fodd bynnag, yn cynnig lle mwy cyfartal i fenywod, gan ganiatau i ddynion a menywod eistedd gyda'i gilydd ac i fenywod ddarllen o'r Torah a chael bod yn rabbi.


Dyw'r Iddewon diwygiedig ddim yn credu mai geiriau Duw yn llythrennol i Moses yw y Torah. Maen nhw'n meddwl mai dehongliad braidd yn hen-ffasiwn yw hynny. Ond i'r Iddewon uniongred, dyna yw y Torah, sef yr union eiriau a ddywedwyd gan Dduw wrth y proffwyd Moses i roi arweiniad i ni sut y dylsen ni fyw. Mae yna 613 rheol (neu mitzvot) y dylsen ni eu cadw.

Yn Hebraeg y byddwn ni yn cynnal y gwasanaeth, gan ddilyn y llyfr gweddi o'r enw 'siddur'. Mae darllen o'r Torah yn hollbwysig, a byddwn fel cynulleidfa yn gwrando ar bregeth y rabbi, canu salmau a gweddïo.



I Iddewon, lle i gyfarfod yw'r synagog – a dyna beth yw ystyr y gair. Does dim arwydd mawr yn datgan enw'r lle, ond mae'n ddigon hawdd ei adnabod am fod addurniadau arwyddocaol arno, sef patrwm o sêr gyda chwe phwynt. Dyma un o symbolau Iddewiaeth, a gallwch ei weld yn y teils glas a gwyn yn y synagog – patrwm 'Seren Dafydd' yw'r enw arno.

Mwslim ydw i, ac rwy'n addoli ym mosg Yemeni yng Nghaerdydd, sef canolfan addoliad crefydd Islam yn y brifddinas. Rwyf i a 'nheulu yn mynd yno er mwyn gweddïo ar Allah (Duw) – dyna mewn gwirionedd yw ystyr y gair 'mosg', sef 'lle i blygu gerbron Allah.'



Y disgwyl yw fod Mwslim yn gweddïo ar Allah bump o weithiau bob dydd, a hynny mewn trefn arbennig o weddïo o'r enw 'salah', sydd yn gyfres o weddïoedd a gweithredoedd gwahanol. Byddwn ni gyd, fel Mwslemiaid y byd, yn gweddïo yr un pryd, gan wynebu'r un cyfeiriad, ac yn dilyn yr un ffordd. Mae hyn yn ein helpu i deimlo yn rhan o'r un teulu mawr o Fwslemiaid byd-eang.

Byddai Mwslemiaid yn arfer cael eu galw i weddïo gan ddyn o'r enw y 'muezzin'. Byddai'r muezzin yn dringo i fyny i ben y tŵr uchel sydd y tu allan i'r mosg, o'r enw y 'minaret', ac o fan hyn byddai'n llafar-ganu mewn llais uchel i alw pawb i weddïo. Erbyn hyn, yn y mosg yng Nghaerdydd, bydd yr Alwad i Weddïo yn cael ei chyflwyno tu fewn y mosg, er mwyn osgoi tarfu ar bobol sy'n byw gerllaw. Yr eithriad yw dydd Gwener, oherwydd ar y diwrnod hwn mae'r alwad i'w chlywed o'r minaret, ond trwy uchelseinydd nid gan y muezzin ei hun.

Bydd angen i ni ddefnyddio gleiniau i'n helpu weithiau i ganolbwyntio yn ddidwyll wrth weddïo. Mae 99 o leiniau am ein bod fel Mwslemiaid yn credu bod gan Allah 99 o enwau neu agweddau – er enghraifft, 'Yr Un Tosturiol.'

Mae nifer o agweddau diddorol i bensaernïaeth y mosg. Mae'r to ar siap cromen neu fwa, a gerllaw mae'r minaret. Y tu mewn mae'r mihrab, sef ardal o fewn y brif neuadd weddïo, ac mae hwn yn dangos y cyfeiriad i Makkah, sef dinas sanctaidd Islam. Mae pob Mwslim yn plygu i gyfeiriad Makkah pan fydd yn gweddïo. O flaen y mihrab mae rhyw fath o lwyfan, weithiau'n gerfiedig a hardd iawn, sy'n debyg i bulpud mewn eglwys. Yr enw ar hwn yw'r minbar, ac o flaen hwn bydd yr arweinydd crefyddol, sef yr imam, yn sefyll er mwyn pregethu ar brynhawn dydd Gwener yn y mosg. Mae hwn yn wasanaeth pwysig bob wythnos ac mae mwslemiaid yn gwneud ymdrech arbennig i'w fynychu.

Cyn gweddïo, rhaid i ni dynnu ein hesgidiau a'u rhoi ar silff wrth fynd mewn i'r mosg, er mwyn cadw'r lle yn lân a dangos parch at Allah. Wedyn bydd rhaid i ni gyflawni 'wudu', sef y broses o ymolchi mewn trefn arbennig cyn gweddïo er mwyn dangos ein bod yn glanhau y meddwl. Rhaid clirio'r meddwl o'n consyrns bob dydd er mwyn gallu canolbwyntio ar Allah. Bydd wudu yn digwydd mewn man penodol lle mae seddau a dŵr i ymolchi, a rhaid dilyn y drefn o olchi yn y ffordd yma – dwylo, ceg, trwyn, wyneb, breichiau, pen, gwallt, clustiau ac yna'r traed. Nid yw dynion a merched yn ymolchi gyda'i gilydd.



Nid ydynt yn gweddïo gyda'i gilydd chwaith, er mwyn canolbwyntio'n llwyr ar Allah. Weithiau bydd gan y merched ystafell ar wahân i weddïo, fel sydd gyda ni yng Nghaerdydd. Os nad oes ystafell ar gael, mae lle i'r meynwod sefyll y tu ôl i'r dynion i weddïo.